# CORONAFEIRWS (COVID-19): DIWEDDARIAD WYTHNOSOL I DDARPARWYR GOFAL

# CORONAVIRUS (COVID-19): WEEKLY UPDATE FOR CARE PROVIDERS

**29 Gorffennaf / 29 July**

Mae Darparwyr Gofal Cymdeithasol yn parhau i rhoi gefnogaeth hanfodol i'r dinasyddion sydd fwyaf mewn perygl yn ein cymunedau. Rydym yn deall bod y sefyllfa ar gyfer darparwyr gofal yn parhau i fod yn dyngedfennol ac rydym yn ddiolchgar am eich ymrwymiad anhygoel a'ch gwaith caled.

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r cyngor diweddaraf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) a Llywodraeth Cymru.

Nod y briff hwn yw rhoi gwybod i ddarparwyr am y diweddariadau diweddaraf, darparu cyngor ac ymateb i ymholiadau cyffredinol.

**Gellir gweld y bwletin hwn a bwletinau blaenorol hefyd ar wefan ADSS Cymru -** os oes gennych unrhyw ymholiadau am y bwletin, cysylltwch â Rachel Pitman [rachel.pitman@adss.cymru]

Social Care Providers are continuing to provide vital support to the most at-risk citizens in our communities. We understand that the situation for care providers remains critical and we are grateful for your incredible commitment and hard work.

This document should be read in conjunction with the most recent advice from Public Health Wales (PHW) and Welsh Government.

The aim of this briefing is to keep providers informed of the latest updates, provide advice and respond to general enquiries.

**This bulletin and previous bulletins can also be found on the ADSS Cymru website** – if you have any queries about the bulletin, please contact Rachel Pitman [rachel.pitman@adss.cymru]

| Pwnc | Manylion | Dolen |
|---|---|---|
| | **Cartref Gofal Cymru** | |
| **Care Home Cwtch: Sut mae'r broses o brofi am COVID-19 yn mynd rhagddi yn eich cartref?** | Bydd y sesiwn Care Home Digital Cwtch nesaf yn digwydd ddydd Awst, 5 Awst, a bydd yn edrych ar sut mae'r broses o brofi am COVID-19 yn mynd rhagddi yn eich cartref. Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu, bydd angen i chi gofrestru **cyn** y sesiwn gan ddefnyddio'r ddolen hon: https://zoom.us/meeting/register/tJModO-rqzMpG9FU3Ce-ssb00lgUqVvCQ3te<br><br>Unwaith y byddwch wedi cofrestru, byddwch yn derbyn e-bost gyda'r ddolen y bydd ei hangen | |

| Topic | Detail | Link |
|---|---|---|
| | **Care Home Cymru** | |
| **Care Home Cwtch: How is the Covid-19 testing process going in your home?** | The next Care Home Digital Cwtch session will take place on Wednesday, 5 August and will explore the topic of how the Covid-19 testing process is going in your home. If you're interested in attending, you'll need to register before the session using this link: https://zoom.us/meeting/register/tJModO-rqzMpG9FU3Ce-ssb00lgUqVvCQ3te<br><br>Once you've registered, you'll receive an email with the link you'll need to join the meeting. We look forward to seeing you. | |

| | | |
|---|---|---|
| | arnoch i ymuno â'r cyfarfod. Edrychwn ymlaen at eich gweld. | |
| | **Social Care Wales** | |
| **Amser i chi** | Mae 'Amser i chi' yn rhwydwaith cymorth cymheiriaid newydd ar gyfer rheolwyr gwasanaethau gofal cartref yng Nghymru.<br>Bydd y rhwydwaith yn cwrdd am un awr, bob pythefnos ar Zoom am 12 wythnos. Bydd gwesteiwr annibynnol yn cwrdd â chi a byddwch chi'n ymuno â grwpiau llai lle gallwch chi rannu profiadau, trafod unrhyw faterion y byddwch chi efallai eisiau cyngor arnyn nhw, a rhannu awgrymiadau a syniadau. Bydd y grwpiau hyn yn aros yr un fath dros y 12 wythnos.<br>Mae'r rhwydwaith hwn wedi'i anelu at y rhai sydd â chymhwyster lefel 4 neu 5 sy'n rhedeg gwasanaethau gofal cartref neu sydd â chyfrifoldeb am reoli staff neu dimau. Cysylltwch â ni os nad ydych yn siŵr a yw hyn ar eich cyfer chi.<br><br>Bydd y cyfarfod cyntaf ddydd Iau, 3 Medi am 11.30am. I archebu'ch lle neu i gael mwy o wybodaeth, e-bostiwch rebecca.cicero@gofalcymdeithasol.cymru neu hannah.williams@gofalcymdeithasol.cymru | |
| **Porth swyddi Gofalwn.Cymru** | Cyflogwyr gofal cymdeithasol: rydym am helpu i fynd i'r afael â phrinderau staff y gallech fod yn eu hwynebu ar hyn o bryd. I'ch helpu i ddod o hyd i'r bobl gywir i lenwi'ch swyddi gwag a chefnogi'ch busnes, rydym wedi creu porth | https://www.gofalwn.cymru/ |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | **Gofal Cymdeithasol Cymru** | |
| **Time for you** | 'Time for you' is new peer support network for managers of domiciliary care services in Wales. The network will meet for one hour, every fortnight on Zoom for 12 weeks. Meet ups will have an independent host and you'll join smaller 'breakout' groups to share experiences, discuss any issues you may want advice on, and share tips and ideas. These groups will remain the same over the 12 weeks.<br>This network is aimed at those with a level 4 or 5 qualification running a domiciliary care service or who have responsibility for managing staff or teams. Get in touch if you're not sure if this is for you.<br><br>The first meet up will be on Thursday, 3 September at 11.30am. To book your place or to find out more, email rebecca.cicero@socialcare.wales or hannah.williams@socialcare.wales | |
| **WeCare Wales jobs portal** | Social care employers: we want to help address the staff shortages you might be facing right now. To help you find the right people to fill your vacancies and support your business, we've created a jobs portal that will list current social care jobs in Wales. | http://www.wecare.wales/ |

| | | |
|---|---|---|
| | swyddi a fydd yn rhestru'r swyddi gofal cymdeithasol presennol yng Nghymru.<br>Postiwch eich swyddi gwag ar Twitter gan gynnwys y manylion canlynol:<br>• teitl y swydd<br>• awdurdod lleol (os yw'r swydd yn cwmpasu mwy nag un awdurdod, dylech gynnwys pob un)<br>• disgrifiad cryno o'r rôl<br>hashnod: #SwyddiGofalwnCymru (mae'n rhaid i chi gynnwys hwn) | |
| **Llywodraeth Cymru** | | |
| **COVID-19 adnodd asesu risg y gweithlu: posteri gofal cymdeithasol a gofal iechyd** | Mae posteri i egluro'r adnodd asesu risg ar gyfer gweithleoedd bellach ar gael. Argraffwch ac arddangoswch i esbonio'r adnodd i'ch holl staff. | Cyswllt i'r poster gofal cymdeithasol<br><br>Cyswllt i'r poster gofal iechyd |
| **Canllaw Gweithredol wedi'i ddiweddaru gan Lywodraeth Cymru ar Ofal Cymdeithasol i Blant COVID-19 (Gorffennaf 2020)** | • Ar 28 Gorffennaf, ailgyhoeddwyd canllaw gweithredol wedi'i ddiweddaru gan Lywodraeth Cymru ynghylch darparu gofal cymdeithasol i blant ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid sy'n ymwneud â diogelu plant.<br>• Mae'r canllaw hwn yn helpu awdurdodau lleol a phartneriaid i barhau i ddarparu cefnogaeth effeithiol i blant sy'n agored i niwed, yn wynebu risg ac â phrofiad o fod mewn gofal, wrth | Cyswllt i'r canllawiau |

| | | |
|---|---|---|
| | Post your job vacancies on Twitter and include the following details:<br>• job title<br>• local authority (if the role covers more than one authority, include them all)<br>• brief description of the role<br>hashtag: #WeCareWalesJobs (you must include this). | |
| **Welsh Government** | | |
| **COVID-19 workforce risk assessment tool: social care and health care posters** | Posters to explain the risk assessment tool for workplaces are now available. Please print and display to explain the tool to all staff. | Link to social care Poster<br><br>Link to healthcare Poster |
| **Updated Welsh Government Operational Guidance for Children's Social Care COVID 19 (July 2020)** | • Updated Welsh Government Operational guidance on the delivery of Children's Social Care for local authorities and partners involved in safeguarding children was re-published on 28 July.<br>• This guidance helps local authorities and partners continue to provide effective support to vulnerable, at risk and care experienced children, whilst maintaining their | Link to guidance |

| | | |
|---|---|---|
| | gynnal eu dyletswyddau statudol, yn ystod argyfwng y coronafeirws.<br>• Mae ein trydydd diweddariad i'r canllaw yn nodi'r mesurau y dylid eu rhoi ar waith er mwyn helpu i gefnogi’r broses o ddychwelyd i ddarparu gwasanaeth arferol yn raddol, gan gynnwys trefniadau cyswllt rhwng gwasanaethau, plant a'u teuluoedd. | |
| **Canllawiau ar brofi ac olrhain cysylltiadau i leoliadau gofal plant** | Gwybodaeth am y prawf antigenau (swab) a’r prawf gwrthgyrff (gwaed) ac olrhain cysylltiadau. | Cyswllt i'r canllawiau |
| **Y Grŵp Cynghori Technegol: datganiad consensws ar brofi post-mortem** | Gwybodaeth am ddichonoldeb profi am heintiaid gyda SARS-CoV-2 ar ôl marwolaeth yr unigolyn i gael ei brofi. | Cyswllt i'r datganiad |
| **Mesurau i reoli COVID-19** | Asesiad o sut mae ein mesurau i reoli COVID-19 yn effeithio ar gydraddoldeb (adolygiad 16 Gorffennaf). | Cyswllt i'r adolygiadau |

| | | |
|---|---|---|
| | statutory duties during the coronavirus duties.<br>• Our third revision to the guidance sets out the measures that should be put in place to help support a gradual return to routine service delivery, including contact arrangements between services, children and their families. | |
| **Guidance on testing and contact tracing in childcare settings** | Information on the antigen (swab) and antibody (blood) tests and contact tracing. | Link to guidance |
| **Technical Advisory Group: consensus statement on post-mortem testing** | Information about the viability of testing for infection with SARS-CoV-2 after the death of the individual to be tested. | Link to statement |
| **Measures to Manage COVID-19** | An assessment of how our measures to manage COVID-19 affect equality of opportunity (16 July review). | Link to reviews |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymateb y Gweinidog Cyllid i gyhoeddiad cyllid Llywodraeth y DU** | Yn dilyn cyfarfod dydd Gwener â'r Trysorlys, dywedodd y Gweinidog Cyllid Rebecca Evans fod Llywodraeth y DU wedi "colli cyfle" i roi mwy o hyblygrwydd i Gymru er mwyn mynd i'r afael â phwysau ariannol pandemig y coronafeirws. | Cyswllt i'r ymateb | **Finance Minister responds to UK Government funding announcement** | Finance Minister Rebecca Evans has described Friday's meeting with the Treasury as a "missed opportunity" for the UK Government to provide Wales with greater flexibilities to meet the financial pressures associated with the coronavirus pandemic. | Link to response |
| **Cyngor y Prif Swyddog Meddygol ar yr Adolygiad o'r Cyfyngiadau** | Cyngor a gyflwynwyd i'r Prif Weinidog ar adolygu trefniadau'r cyfyngiadau. | Cyswllt i'r cyngor | **CMO advice on review of lockdown arrangements** | Advice presented to First Minister on review of lockdown arrangements. | Link to advice |
| **Llacio cyfyngiadau coronafeirws Cymru ymhellach** | Heddiw, mae'r Prif Weinidog Mark Drakeford wedi cyhoeddi y bydd sinemâu, amgueddfeydd a salonau harddwch yn gallu ailagor o ddydd Llun, wrth i gyfyngiadau coronafeirws Cymru barhau i gael eu llacio (24 Gorffennaf). | Cyswllt i'r cyhoeddiad<br><br>Cyswllt i'r diwygiad<br><br>Cyswllt i'r diwygiad | **Coronavirus restrictions relaxed further in Wales** | Cinemas, museums and beauty salons can reopen from Monday, as Wales' coronavirus restrictions continue to be relaxed, First Minister Mark Drakeford announced today (24 July) | Link to announcement<br><br>Link to amendment<br><br>Link to amendment |
| **Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020** | Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad sy'n gysylltiedig â Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 ar 27 Gorffennaf 2020 a bydd yn dod i ben am 12am ar 24 Awst 2020 | Cyswllt i'r rheoliadau | **The Adoption and Fostering (Wales) (Miscellaneous Amendments) (Coronavirus) Regulations 2020** | The consultation associated with The Adoption and Fostering (Wales) (Miscellaneous Amendments) (Coronavirus) Regulations 2020 was published on 27th July 2020 and will end at 12am on 24th August 2020<br><br>Any comments or questions on these proposals can be forwarded to the following mailbox: | Link to regulations |

| | | |
|---|---|---|
| | Gellir anfon unrhyw sylwadau neu gwestiynau ar y cynigion hyn i'r blwch post canlynol: PlantSynDerbynGofal@llyw.cymru | |
| **Canllawiau ar gyfer y gweithle i gyflogwyr a chyflogeion: COVID-19** | Canllawiau i gyflogwyr a gweithwyrgadw'n ddiogel yn y gweithle yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19). | Cyswllt i'r canllawiau |
| **Rheoliadau'r Coronafeirws: Diweddariad ynglŷn â gorchuddion wyneb** | Mae Rheoliadau'r Coronafeirws wedi'u diweddaru i gynnwys cyngor ar orchuddion wyneb. | Cyswllt i'r canllawiau ar y rheoliadau |
| **Gwneud cais i gael prawf coronafeirws** | Cael prawf i ddarganfod a oes gennych coronafeirws. | Cyswllt i wneud cais |
| **Y Gell Cyngor Technegol: crynodeb o gyngor 24 Gorffennaf 2020** | Crynodeb o gyngor COVID-19 ddarparwyd i Weinidogion Cymru ar 24 Gorffennaf 2020. | Cyswllt i' cyngor |
| **Cyfleusterau profi coronafeirws rhanbarthol** | Mae capasiti profi Cymru wedi'i gefnogi gan rwydwaith helaeth o gyfleusterau ledled y wlad. | Cyswllt i'r canllawiau |
| **Cronfa Cymorth Dewisol (DAF)** | Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol yn cynnig dau grant gwahanol nad oes angen i chi eu talu yn ôl. | Cyswllt i'r canllawiau |

| | | |
|---|---|---|
| | PlantSynDerbynGofal@llyw.cymru | |
| **Workplace guidance for employers and employees: COVID19** | Guidance for employers and employees to keep safe in the workplace during the coronavirus (COVID-19) pandemic. | Link to guidance |
| **Coronavirus Regulations: Update on Face Coverings** | The Coronavirus Regulations have been updated to include advice on face coverings. | Link to regulations guidance |
| **Apply for a Test** | Get tested to find out if you have coronavirus. | Link to apply |
| **Technical Advisory Cell: summary of advice 24 July 2020** | Summary of COVID-19 advice provided to Welsh Ministers on 24 July 2020. | Link to advice |
| **Regional Testing Facilities** | Wales' testing capacity is supported by an extensive network of facilities across the country. | Link to guidance |
| **Discretionary Assistance Fund (DAF)** | The Discretionary Assistance Fund provides 2 types of grant that you do not need to pay back. | Link to guidance |

# Dolenni links / Useful links:

| | |
|---|---|
| Gofal Cymdeithasol Cymru – tudalennau gwe COVID-19 https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/gwybodaeth-ac-adnoddau-ich-tywys-trwy-covid-19 | Social Care Wales – Covid-19 web pages: https://socialcare.wales/service-improvement/information-and-resources-to-guide-you-through-covid-19 |
| ADSS Cymru – Cefnogaeth i Ddarparwyr a Gomisiynwyd https://www.adss.cymru/cy/blog/post/covid19-commissioners | ADSS Cymru – Support for Commissioned Providers https://www.adss.cymru/en/blog/post/covid19-commissioners |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru, Datganiadau Dyddiol am 2yp: https://covid19-phwstatement.nhs.wales/ | Public Health Wales, Daily 2pm Statements: https://covid19-phwstatement.nhs.wales/ |
| Arolygaeth Gofal Cymru, Cwestiynnau Cyffredin: https://arolygiaethgofal.cymru/coronafeirws-covid-19-cwestiynau-cyffredin | Care Inspectorate Wales, FAQs: https://careinspectorate.wales/coronavirus-covid-19-frequently-asked-questions-faqs |